# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 1 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(25)

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 15 cwestiwn.  Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**14.26**
**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**14.41**
**3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Remploy**

**15.10**
**4. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Darparu'r Weledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol – Gyda'n Gilydd dros Iechyd**

**15.49**
**5. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Archwiliad yr Uned Safonau Ysgolion**

**16.21**
**6. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Senedd y DU ynghylch Addysg**

**NDM4835 Leighton Andrews (Rhondda)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynigion NNDM4731 ac NNDM4660, y darpariaethau hynny y daethpwyd â hwy gerbron yn y Bil Addysg sy'n ymwneud â phwerau i osod cosb ariannol, adennill costau, derbyn apelau, rhoi cyfarwyddiadau a thynnu cydnabyddiad yn ôl oddi ar gyrff

sy'n cael eu cydnabod, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 11 | 0 | 56 |

Derbyniwyd y cynnig.

**16.35**
**7. Dadl ar adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru**
**NDM4836 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

**NDM4836 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2010-11 ac yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffurfiol iddo erbyn 31 Mawrth 2012.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y pryder a godwyd gan y Comisiynydd Plant:

a) nad yw strategaethau'n gweithio gyda'i gilydd nac yn gweithio ar lawr gwlad i wella bywydau plant;

b) nad yw polisi na chyfraith genedlaethol yn cael eu gweithredu'n gyson; ac

c) bod llinellau atebolrwydd yn annelwig, ac na chadwir at addewidion.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 28 | 56 |

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 28 | 56 |

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu darparu ymateb i'r adroddiad cyn 31 Mawrth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 28 | 56 |

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod amserlenni clir ar gyfer cyflawni pwyntiau gweithredu yn ei hymateb i'r Adroddiad.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 28 | 56 |

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4836 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2010-11 ac yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffurfiol iddo erbyn 31 Mawrth 2012.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**17.26**
**Cyfnod Pleidleisio**

Daeth y cyfarfod i ben am 17.29

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 Ddydd Mercher, 2 Tachwedd 2011**